Disney

# RHEWFYD

## Cwestiynau i ysgogi sgwrs

- Wnest ti fwynhau'r stori? Pam / pam lai?
- Pa ran o'r stori wnest ti ei mwynhau fwyaf?
- Oedd yna ran / rannau o'r stori na wnest ti eu mwynhau?
- Sut oedd y stori'n gwneud i ti deimlo?
- Alli di feddwl am dri ansoddair i ddisgrifio'r stori?
- Pwy neu beth wnaeth i ti chwerthin yn y stori?
- Mae'n hi'n aeaf o hyd yn Ariandir. Pa dymor yw dy ffefryn?
- Pa fath o bethau wyt ti'n hoffi eu gwneud:
  - yn y gwanwyn?
  - yn yr haf?
  - yn yr hydref?
  - yn y gaeaf?



- Pŵer hud Elsa yw troi pob peth yn rhew. Pa bŵer hud yr hoffet ti ei gael? Beth fyddet ti'n wneud â'r pŵer hwnnw?
- Yn y stori, mae cariad ei chwaer yn toddi calon Elsa, ac yn gwneud iddi deimlo'n well. Sut wyt ti'n codi calon ffrind neu aelod o'r teulu sy'n teimlo'n drist?

